Cyfarfu'r Cyngor Cymuned ar 19 Ionawr 2017 yn Neuadd Santes Ursula

Presennol : Margaret Lewis, Islwyn Jones, Huw Griffith, David Jones, Fred Jones, Lyn Davies, Morgan Morgans, y Cynghorydd Rowland Rees Evans a'r clerc.

Ymdiheuriadau : Peter Tandy

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Tachwedd 17 2016 a chytunwyd eu bod yn gywir.

Gohebiaeth

Derbyniwyd copi o'r cylchgrawn Chwarae dros Gymru, Noah's Ark Winter Newsletter, Clerks and Councils Direct mis Ionawr, gwybodaeth am Bwyllgor Rheoli Datblygu mis Ionawr a hysbysiad, gyda map, am drefniadau i gau ffordd dros dro yn Mlaenpennal a Llangwyryfon.

Ffurflen i'w llenwi oddi wrth y Gwasanaeth Tân ac Achub er mwyn iddynt adolygu eu gwybodaeth am eu rhanddeiliaid. Llenwyd a dychwelwyd.

Derbyniwyd gwybodaeth am yr Ymgynghoriad ar Amcanion Llesiant. Llenwyd y ffurflen adborth a'i dychwelyd.

Gwahoddiad oddi wrth y Comisiwn sy'n Adolygu Ffiniau Etholiadol i gyfarfod yn Aberaeron Ionawr 25. Hefyd llythyr yn gofyn am sylwadau. Cytunwyd bod y Cyngor wedi anfon eu sylwadau ar y pwnc hwn eisoes mewn ateb i gais blaenorol (gweler cofnodion 22 Medi 2016 tud. 29 a Hydref 27 tud.31)

Materion Ariannol

Derbyniwyd cadarnhad odd wrth y banc eu bod wedi diweddaru'r trefniadau arwyddo sieciau.

Derbyniwyd pamffledyn oddi wrth gwmni yswiriant AON yn rhoi gwybodaeth an ddeddf yswiriant newydd. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu ag Un Llais Cymru am help i ddeall beth fydd oblygiadau'r ddeddf i'r Cyngor Cymuned.

Derbyniwyd cyfraniad o £1625.00 oddi wrth edf energy ddechrau mis Rhagfyr. Swm sy'n y banc ar 30 Rhagfyr - £1698.66 a chyfrif rhf 2 - £7926.48. Awdurdodwyd talu cyflog y clerc £200.00, talu'r archwilwyr allanol £186.00 gan sylwi na chodwyd TAW arno eleni a thalu Scottish Power £42.59. Nodwyd hefyd na dderbyniwyd bil am oleuadau stryd dros nos oddi wrth y Cyngor Sir hyd yma. Ar ôl talu'r biliau uchod bydd £1270.07 ar ôl.

Trafodwyd ffurflen hawlio praesept, a chan dderbyn bod costau megis yswiriant, trydan, archwiliwr allanol ac aelodaeth o Un Llais Cymru yn codi bob blwyddyn penderfynnwyd gofyn am £2850 eleni yn lle £2600.00. Gofynnwyd i'r clerc ddychwelyd y ffurflen.

Llanwyd a dychwelwyd ffurflen Gwariant Refeniw Mynwentydd.

Darllenwyd llythyr oddi wrth Alwen Morris, Maenelin Isaf yn gofyn i'r Cyngor ei noddi ar daith a drefnir gan Urdd Gobaith Cymru i Batagonia. Penderfynnwyd rhoi £100 o gyfrif rhif 2.
Gadawyd ceisiadau am gyfraniad ariannol oddi wrth Gŵyl Cerdd Dant Llandysul, Tenovus Cancer Care a Calonnau Cymru i'w trafod mis nesaf gyda'r ceisiadau eraill.

Unrhyw Fater Arall

Atgoffwyd y Cyngor fod cais wedi ei wneud ym mis Mai am finiau halen mewn mannau penodol. Derbyniwyd ymateb cyffredinol yn ystod yr Haf ond dim byd ers hynny.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Chwefror 16 2017 yn Neuadd Santes Ursula.